Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

INS186W

# Gwybodaeth i yrwyr gyda Diabetes Dan Inswlin sy'n dymuno gwneud cais am Hawl Grŵp 2 (lorïau a bysiau)



Am ragor o wybodaeth ewch i
**www.gov.uk/browse/driving/disability-health-condition**
Cadwch hwn er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

**Darllenwch y wybodaeth ganlynol cyn penderfynu a ydych yn gymwys i wneud cais.**

## Amodau cymhwyso y mae'n rhaid ichi eu bodloni

- nid ydych wedi cael digwyddiad hypoglycemig sy'n gofyn am gymorth person arall yn ystod y 12 mis diwethaf
- **rhaid** bod gennych ymwybyddiaeth lawn o symptomau hypoglycemia
- **rhaid** eich bod yn gallu dangos dealltwriaeth o risgiau hypoglycemia
- **rhaid** ichi wirio eich lefelau glwcos y gwaed (siwgr) o leiaf ddwywaith bob dydd, hyd yn oed ar ddiwrnodau pan nad ydych yn gyrru a dim mwy na 2 awr cyn dechrau'r siwrnai gyntaf a phob 2 awr ar ôl dechrau gyrru. Rhaid gwneud hyn yn defnyddio mesurydd glwcos gwaed (siwgr) gyda swyddogaeth cof i fesur a chofnodi lefelau glwcos y gwaed. Ni chaniateir systemau monitro glwcos hylif interstitaidd FGM a RT-CGM at ddibenion gyrru a thrwyddedu Grŵp 2. Rhaid i yrwyr sy'n defnyddio'r dyfeisiau hyn barhau i fonitro lefelau glwcos y gwaed capilari drwy brofion pigiad bys
- **rhaid** ichi gadw carbohydrad sy'n gweithio'n gyflym o fewn cyrraedd hwylus ichi wrth yrru
- **rhaid** ichi fynychu archwiliad bob 12 mis gydag ymgynghorydd annibynnol yn arbenigo mewn trin diabetes
- **rhaid** ichi gael o leiaf 6 wythnos parhaus o ddarlleniadau ar gael ar gof eich mesurydd glwcos gwaed (siwgr) er mwyn i'r ymgynghorydd neu feddyg teulu eu harchwilio
- **rhaid** ichi beidio bod ag unrhyw gyflwr meddygol arall fyddai'n eich atal rhag gyrru
- **rhaid** ichi lofnodi cytundeb yn datgan y byddwch yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau meddygon sy'n trin eich diabetes ac y byddwch yn adrodd ar unwaith am unrhyw newidiadau arwyddocaol i'ch cyflwr i DVLA

Mae dau gam i'r broses

**Cam cyntaf**

Bydd angen ichi fod yn gyson ar inswlin am o leiaf 1 mis cyn gwneud cais am eich trwydded. Ar adeg ail gam yr asesiad, mae'n rhaid bod gennych 6 wythnos barhaus o ddarlleniadau glwcos gwaed (siwgr) wedi'u cymryd tra roeddech ar inswlin yn dangos eich bod yn monitro eich lefelau glwcos gwaed (siwgr) i'r safon ofynnol (gweler isod).

- ffurflen gais (D2W)
- holiadur meddygol (VDIAB1IW)
- darllenwch yr adran 'Nodiadau i'w hystyried' ar y daflen hon am wybodaeth ar p'un ai oes angen D4 arnoch neu beidio. Os bydd arnoch angen un, bydd rhaid ichi gysylltu â ni ar **0300 790 6806** neu **0300 790 6819** am y llinell uniongyrchol Gymraeg i ofyn am y ffurflenni hyn neu gallwch eu harchebu o **www.gov.uk/browse/driving**
- **chi sy'n gyfrifol** am unrhyw ffioedd ellid eu codi am lenwi'r adroddiad meddygol D4
- mae'n dderbyniol bod yr holl bobl gyda diabetes dan driniaeth inswlin yn cael episodau achlysurol o hypoglycemia. Ond, os cewch unrhyw episodau, bydd angen ichi ddangos i'r aseswyr eich bod yn ymwybodol o'r episodau hyn pan fyddant yn digwydd. Bydd rhaid i'ch darlleniadau mesuryddion ddangos eich bod wedi ail brofi eich glwcos gwaed (siwgr) i sicrhau ei fod ar lefel normal cyn gyrru. I helpu gyda hyn fe'ch cynghorir yn gryf i gadw dyddiadur o unrhyw ddarlleniadau glwcos y gwaed isel gyda rhesymau pam eu bod yn digwydd a ph'un ai oeddech chi'n ymwybodol ohonynt neu beidio ar y pryd
- dylid anfon y ffurflen gais, yr holiadur meddygol a'r adroddiad meddygol D4 (os yn gymwys) i DVLA i'w hasesu cyn symud ymlaen i'r cam nesaf

**Ail gam – Holiadur meddygol arbenigol ac archwiliad gan ymgynghorydd sy'n arbenigo mewn diabetes**

- anfonir holiadur meddygol at ymgynghorydd annibynnol sy'n arbenigo mewn trin diabetes. Bydd rhaid ichi fynychu apwyntiad er mwyn llenwi'r ffurflen
- yn yr archwiliad bydd angen i'r meddyg weld 6 wythnos **barhaus** o ddarlleniadau glwcos y gwaed (siwgr) ar gael ar fesurydd glwcos y gwaed (siwgr) gyda **ffwythiant cof**. **Rhaid** ichi fynd â'ch holl fesuryddion i'r archwiliad hwn. Rhaid i'r darlleniadau hyn fod wedi cael eu cymryd tra'r oeddech yn cael eich trin ag inswlin
- rhaid i'r dyddiad a'r amser gael eu gosod yn gywir ar y mesurydd a rhaid bod digon o gof i storio 6 wythnos barhaus o ddarlleniadau siwgr yn y gwaed (glwcos). Os yn ansicr, efallai y byddwch am drafod gyda'r tîm sy'n rheoli eich diabetes
- bydd DVLA yn talu'r ffi a godir am yr archwiliad hwn

## Nodiadau ynglŷn â gyrru tra byddwn yn asesu eich ffitrwydd i yrru

- os na fu gennych hawl i yrru lori neu fws o'r blaen neu ei bod wedi ei gwrthod neu ei diddymu, rhaid ichi beidio gyrru nes bydd ein hymholiadau wedi eu cwblhau a thrwydded wedi ei chyhoeddi
- os ydych ar hyn o bryd yn dal hawl i yrru loriau neu fysiau ac nid ydych wedi'n hysbysu o'r blaen bod eich diabetes yn cael ei drin ag inswlin, rhaid ichi sicrhau eich bod yn cyflawni pob un o'r amodau cymhwyso a restrir yn y daflen hon i barhau i yrru hyd nes y bydd DVLA wedi gwneud penderfyniad ar drwyddedu

## Nodiadau i'w hystyried

**Cael y ffurflen D4 wedi'i llenwi os:**

- mai dyma yw eich cais cyntaf
- os ydych yn gwneud cais i adnewyddu'ch hawl i yrru bws neu lori a'ch bod yn 45 oed. O hynny ymlaen, bydd angen D4 bob 5 mlynedd nes byddwch yn 65, pan fydd angen D4 bob 12 mis
- os ydych yn gwneud cais am hawl dros dro newydd ac na chyflwynwyd D4 yn ystod y 12 mis diwethaf
- rydych yn 70 oed a dal angen hawl C1 a D1. Bydd angen ichi anfon D4 i mewn bob 3 blynedd
- peidiwch ag anfon cais i mewn os na allwch fodloni unrhyw un o'r amodau cymhwyso a restrwyd yn Adran 4 y daflen wybodaeth INF4DW. Byddai'r amodau hyn yn eich atal rhag dal trwydded alwedigaethol. Mae'r INF4DW ar gael gan DVLA yn Abertawe, neu gellir hefyd ei lawrlwytho o **www.gov.uk/browse/driving**

## Cysylltu â ni

Gwefan:
**www.gov.uk/browse/driving/disability-health-condition**

Ffôn: 0300 790 6806 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg (8am - 7pm Llun – Gwener)
(8am - 2pm Dydd Sadwrn)

Ysgrifennu: **Grŵp Meddygol Gyrwyr, DVLA, Abertawe SA99 1TU**

# Gwasanaethau digidol DVLA

## Arbedwch amser – gwnewch ef ar-lein!

- **Trwyddedau gyrru –** o wneud cais am eich trwydded dros dro i weld eich manylion gyrrwr
- **Treth cerbyd –** trethu eich cerbyd neu wneud Hysbysiad Oddi ar y ffordd Statudol (HOS)
- **Cofrestriadau personol –** prynwch rif cofrestru ac elwa o'n gwasanaeth ôl-werthu

I gael rhagor o wybodaeth am holl wasanaethau ar-lein diogel DVLA, sicrhewch eich bod yn defnyddio'r wefan swyddogol GOV.UK yn: **www.gov.uk/browse/driving**

**youtube.com/dvlagov** **@DVLAgovuk** **facebook.com/dvlagovuk**